

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **12 Ionawr 2026** am 6:30pm

YN BRESENNOL:- Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Medwyn Hughes (Cadeirydd), Cyng. Delyth Russell (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Nick Pritchard, Cyng. Mustakim Raza, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Jackie Spence, Cyng. Lisa Toth a'r Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol), Sioned Jones (Cyfieithydd) a 6 aelod o'r cyhoedd.

50/25 YMDDIHEURIADAU Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

51/25 CYFETHOL CYNGHORYDD I WARD MENAI

Roedd enwau'r ymgeiswyr cyfethol wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod, yn ôl y polisi cyfethol. Dim ond tri o'r pedwar ymgeisydd gwreiddiol oedd yn bresennol.

Crynhowyd y broses gyfethol, fel y manylwyd yn y polisi, gan Gyfarwyddwr y Ddinas. Roedd dau ymgeisydd yn bresennol yn y Siambr, ac roedd trydydd yn bresennol yn rhithiol.

Yn dilyn cynnig ac eilydd, **penderfynodd y Cyngor** eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r eitem hon.

Gofynnwyd i'r darpar gynghorwyr posibl adael y siambr. Gosodwyd yr ymgeisydd rhithwir o'r neilltu ar Teams gan swyddog y cyngor.

Dychwelodd Ymgeisydd 1 i'r Siambr a rhoi cyflwyniad tair munud. Yn ystod y cyflwyniad, cynghorwyd yr ymgeisydd gan y Cadeirydd fod 30 eiliad ar ôl. Gorffennodd yr ymgeisydd y cyflwyniad a gadawodd y Siambr.

Ymunodd Ymgeisydd 2 â'r Siambr, yn rhithwir. Pan gafodd ei annog gan y Cadeirydd, rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad tair munud. Unwaith eto, cynghorwyd yr ymgeisydd gan y Cadeirydd fod 30 eiliad ar ôl.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, dywedwyd wrth y Cadeirydd nad oedd llawer o'r Cynghorwyr yn gallu clywed y cyflwyniad yn iawn. Ar ôl codi dwylo, roedd yn amlwg mai dim ond y Cadeirydd ac un cynghorydd arall oedd wedi clywed y cyflwyniad.

Dilynodd trafodaeth ar y ffordd orau o symud ymlaen. Mewn ymateb i ymholiad gan gynghorydd, cynghorodd Cyfarwyddwr y Ddinas nad oedd fawr o gyfiawnhad dros ohirio'r broses tan y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd: Penderfynodd y Cyngor yn unfrydol barhau â'r broses gyfethol.

Drwy gydol y drafodaeth, roedd staff y Cyngor yn gwneud ymdrechion i wella ansawdd sain y system rithwir. Yn y pen draw, drwy gyfuno ffôn symudol ar gyfer sain a Teams ar gyfer cysylltiadau gweledol, sefydlwyd system foddhaol.

Penderfynwyd: Penderfynodd y Cyngor, gyda mwyafrif sylweddol, gan nad yr ymgeisydd ei hun oedd yn gyfrifol am y problemau technegol, y dylid caniatáu i ymgeisydd 2 ailadrodd y cyflwyniad, gan ddefnyddio'r cyfluniad hwn.

Ailadroddodd Ymgeisydd Dau eu cyflwyniad tair munud. Unwaith eto, cynghorwyd yr ymgeisydd gan y Cadeirydd fod 30 eiliad ar ôl. Ar ei ddiwedd, cadarnhaodd y Cadeirydd fod ansawdd y sain yn foddhaol a bod pob cynghorydd wedi clywed y cyflwyniad. Dychwelwyd Ymgeisydd Dau i'r ystafell ymneilltuo rithwir.

Daeth Ymgeisydd 3 i mewn i'r Siambr a rhoi cyflwyniad tair munud. Yn ystod y cyflwyniad, cynghorwyd yr ymgeisydd gan y Cadeirydd fod 30 eiliad ar ôl. Daeth yr ymgeisydd â'r cyflwyniad i ben a gadawodd y Siambr.

Wedi i'r ymgeiswyr adael y Siambr, dosbarthwyd papurau pleidleisio ac, ar ôl eu cwblhau, fe'u casglwyd gan y Cyfarwyddwr Dinesig.

PENDERFYNWYD: Cyfethol Sam Njoku i sedd wag Ward Menai.

Caniatawyd i'r wasg a'r cyhoedd ddychwelyd i'r Siambr.

52/25 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD – AELOD CABINET CYNGOR GWYNEDD DROS DAI AC EIDDO

Gwahoddwyd y Cynghorydd Paul Rowlinson, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd, gan y Cyngor i gyflwyno cynlluniau cyfredol adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd. Aeth y Cynghorydd Rowlinson ymlaen i gadarnhau eu cynlluniau ar gyfer Tŷ Glyn ar y Stryd Fawr, sef y byddant yn trosi'r hen swyddfeydd hyn yn fflatiau ar gyfer un person, gan fod galw mawr yn yr ardal ar hyn o bryd am lety i un person. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol gyda digartrefedd yng Ngwynedd a faint o blant a theuluoedd ifanc sydd mewn llety dros dro ar hyn o bryd (gwestai a llety gwely a brecwast). Esboniodd y cynlluniau pellach sydd gan Gyngor Gwynedd i fynd i'r afael â phroblem digartrefedd yn y sir.

53/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim

54/25 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 10 TACHWEDD 2025

PENDERFYNWYD: cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 10 Tachwedd 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

55/25 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Roedd yr adroddiad wedi cael ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Dinesig sylw at ychydig o bwyntiau o'i adroddiad, gan gynnwys:-

- i) Trefnir cyfarfod Cyngor ychwanegol ar gyfer dydd Llun, yr 2il o Chwefror, i gymeradwyo'r Gyllideb.
- ii) Lanswyd Prosiect Treftadaeth Bangor, y cyfeiriwyd ato yn Adroddiad mis Tachwedd, yn llwyddiannus ym Mhrifysgol Bangor gan ein Maer. Mae'r fenter hon, sydd wedi'i hanelu at ddisgyblion ysgol gynradd, yn efelychu fformat y Brifysgol o fyfyrwyr yn dewis modiwlau i'w hastudio. Mae'r holl fodiwlau hyn wedi'u seilio ar Fangor.
- iii) Mae'r gwaith sefydlu Bwrdd Adfywio Bangor yn mynd rhagddo'n dda ac yn gyflym. Ers yr adroddiad diwethaf, mae sawl ymgynghoriad wedi digwydd gyda *Cwmpas* a'r gweithgor ehangach. Cytunodd yr holl gyfranogwyr ar fformat sefydlu'r Bwrdd hwn. Mae rhestr o Gyfarwyddwyr Strategol posibl wedi'i llunio ac mae dogfennau Matrics Sgiliau a Phroffil Rôl yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cefnogir y prosiect hwn gan Ddatblygu Economaidd Gwynedd, yr AS Lleol a buddiannau busnes lleol.

56/25 DERBYN ADRODDIAD AR HWB BANGOR

PENDERFYNWYD: gohirio'r eitem hon tan gyfarfod nesaf y Cyngor ar 2 Chwefror 2026.

57/25 CYMERADWYO PRYDLESU Tŷ'R PIERFEISTR I FFRINDIAU PIER Y GARTH

Cafodd y cymalau cytundeb prydles arfaethedig eu cylchredeg i'r aelodau cyn y cyfarfod.

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Asedau ar 13 Hydref 2025, penderfynwyd cytuno dros dro ar gytundeb prydles gyda Ffrindiau Pier Garth ar gyfer Tŷ'r Pierfeistr, ar yr amod y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal. Ers y cyfarfod hwnnw, cynhaliwyd trafodaethau pellach gyda Ffrindiau Pier Garth mewn perthynas â chadarnhau cymalau'r cytundeb prydles rhwng Cyngor Dinas Bangor a'u grŵp.

Mae cymalau arfaethedig y cytundeb prydles fel a ganlyn:-

- Y cynnig yw prydles 5 mlynedd, gyda chymal torri hanner ffordd. Gall y naill ochr roi rhybudd o 3 mis i'r llall.
- Rhent rhad o £1 y flwyddyn i'w dalu i'r cyngor.
- Bydd Ffrindiau Pier y Garth yn ariannu'r costau cychwynnol o £15,000 i sefydlu'r eiddo.
- Bydd y Ffrindiau yn ymgymryd â'r holl waith i baratoi a marchnata'r eiddo.

- Bydd yr eiddo yn cael ei lanhau gan gcontractwr allanol.
- Bydd yr holl waith ailosod ac adnewyddu yn cael ei ariannu gan y Ffrindiau o'r incwm a gynhychir.
- Bydd y Ffrindiau yn ysgwyddo'r holl ofynion cofrestru a chyfreithiol i sefydlu a chynnal yr eiddo mewn cyflwr addas i'w farchnata.
- Bydd yr holl elw a gynhychir o osod yr eiddo yn cael ei roi i Gyngor Dinas Bangor i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl ar gynnal a chadw'r Pier.
- Bydd yr elw disgwyledig, a gyfrifwyd gan sefydliad trydydd parti, tua £20,000 y flwyddyn
- Bydd datganiad cyfrifon penodol i'r prosiect hwn yn cael ei baratoi o leiaf ddwywaith y flwyddyn, mewn fformat y cytunir arno ar y cyd, a bydd ar gael i'r ddwy ochr.

Gwnaed cais pellach gan Ffrindiau Pier Garth, pe bai'r costau sefydlu yn fwy na £15,000, a fyddai Cyngor Dinas Bangor yn cyfrannu hyd at uchafswm a gytunwyd ymlaen llaw?

PENDERFYNWYD: derbyn y pwyntiau a wnaed uchod a'u hymgorffori yn y cytundeb prydles. Unwaith y bydd y cytundeb prydles wedi'i ddrafftio, bydd ar gael i'r Cyngor i'w awdurdodi.

58/25 CEISIADAU CYNLLUNIO

C25/0899/11/LL – 296 Stryd Fawr, Bangor – Newid defnydd o Fanwerthu i ddefnydd cymysg o Fanwerthu a Domestig drwy sefydlu 3 fflat. [Gwynedd | Cyngor Uniongyrchol | Cais | 36885](#)

Dim gwrthwynebiad – Gwnaed ychydig o sylwadau gan y Cyngor. Cododd y Cyngor ychydig o bryderon y maent yn dymuno i Gyfarwyddwr y Ddinas eu trosglwyddo i adran gynllunio Cyngor Gwynedd.

- 1) Y pryder cyntaf oedd y diffyg ffenestri digonol sy'n darparu golau naturiol ar gyfer y fflat stiwdio ar y llawr gwaelod a ffordd o ddianc rhag tân pe bai'r drws i'r tu allan wedi'i gloi.
- 2) Yr ail bryder oedd y diffyg gofod llawr digonol yn y fflat ar lawr y llofft a'r fflat stiwdio ar y llawr gwaelod.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 pm

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR